| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** **General Certificate of Secondary Education**

165/58

**HANES**

**MANYLEB A: ASTUDIAETHAU MANWL AC AMLINELLOL O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD**

**PAPUR 1**

**ASTUDIAETH FANWL**

**08 – TSIEINA DAN LYWODRAETH MAO ZEDONG, 1949-1976**

P.M. DYDD GWENER, 8 Mehefin 2007

1 awr (o arholiad 2 awr)

| Cwestiynau a atebwyd | Swyddfa'n unig |
|---|---|
| Cw.1 (Gorfodol) | 20 |
| Cw. | 25 |
| CYFANSWM | 45 |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch Gwestiwn 1 (Adran A) **a** *naill ai* Cwestiwn 2 *neu* Gwestiwn 3 o Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os nad yw'r llinellau a ddarparwyd yn y llyfryn hwn yn ddigon. Ysgrifennwch eich enw ar bob tudalen ychwanegol a nodwch yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch eich tudalennau ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Cewch farciau am ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig.

I ennill y marciau llawn ar gyfer unrhyw gwestiwn, rhaid i'ch atebion fod yn berthnasol a rhaid iddynt wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Ym mhob achos dylech gefnogi eich atebion trwy gyfeirio at eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc a ddewiswyd.**

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch Gwestiwn 1 yn Adran A a* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3 yn Adran B.*

**ADRAN A**

(GORFODOL)

**1. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am flynyddoedd yr argyfwng, 1958-1962.**

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell. [20]

**Ffynhonnell A**



[Pentrefwyr yn Tsieina yn gweithio wrth eu ffwrneisi chwyth eu hunain fel rhan o'r Naid Fawr Ymlaen]

*(a)* Defnyddiwch Ffynhonnell A, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i ddisgrifio'r ymdrechion i gynyddu cynhyrchiad diwydiannol yn ystod y Naid Fawr Ymlaen. [3]

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**Ffynhonnell B**

Arweiniodd y rhaglen gyfunoli a ddechreuwyd yn 1958 at y newyn gwaethaf yn hanes Tsieina. Roedd yr aflonyddwch a achoswyd wrth ddod â ffermio preifat i ben yn un o brif achosion y newyn gan nad oedd dim anogaeth bellach i'r gwerinwyr gynhyrchu mwy o fwyd na'r hyn roeddynt ei angen eu hunain.

[Rhan o werslyfr ar gyfer ysgolion gan Michael Lynch,
*The People's Republic of China since 1949* (1998)]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i egluro achosion y newyn yn Tsieina ar ddechrau'r 1960au. [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell C**

Mae pentref Dazhai yn enwog oherwydd y ffordd y gwnaeth y bobl, 365 ohonynt, osod esiampl trwy gloddio terasau o feysydd *(terraced fields)* ar lethrau serth a charegog. Maent wedi gwneud hynny trwy waith caled yn unig gan ddefnyddio dim ond offer syml. Mae Dazhai yn mynd yn ei flaen yn gyflym iawn. Mae rhyw deimlad arbennig ynglŷn â'r lle. Mae balchder yn yr hyn sydd wedi'i gyflawni.

[Rhan o lyfr nodiadau Colin MacKerras, darlithydd o Awstralia, a fu'n gweithio yn Tsieina rhwng 1964 a 1966. Aeth i weld Dazhai gyda'r awdurdodau yn Tsieina.]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell C fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio'r Naid Fawr Ymlaen?
Eglurwch eich ateb trwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod. [5]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell CH**

Methiant trychinebus oedd y Naid Fawr Ymlaen. Roedd pobl Tsieina'n barod i ymroi ond nid oedd yr arbenigedd technegol ganddynt i wneud i'r cynllun weithio.

[Yr hanesydd Ben Walsh, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr ar gyfer ysgolion, *Modern World History* (1996)]

*(ch)* Yn Ffynhonnell CH mae'r awdur yn dweud mai methiant oedd y Naid Fawr Ymlaen. A yw hynny'n ddehongliad dilys?

*Yn eich ateb dylech ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod am y testun, cyfeirio at y ffynonellau eraill sy'n berthnasol yn y cwestiwn hwn, ac ystyried sut y daeth yr awdur i'r dehongliad hwn.* [8]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## ADRAN B

*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3*.

**2. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am Tsieina a'r byd mawr.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

| GWYBODAETH |
| --- |
| Roedd Tsieina Gomiwnyddol yn awyddus i leihau pŵer unigolion a'r rheiny a allai fod yn fygythiad. Yn y darlun hwn gwelir y Dalai Lama ifanc. |



*(a)* (i) Pwy yw'r Dalai Lama? [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch pam y rhoddodd Tsieina ei chefnogaeth i Ogledd Korea ar ddechrau'r 1950au. [4]

..............................................................................................................................................

(iii) Pa mor llwyddiannus oedd Tsieina wrth ymwneud ag India? [5]

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch y rhan a chwaraeodd Tsieina yn rhyfel Vietnam. [3]

(ii) Eglurwch pam y digwyddodd y rhwyg rhwng Tsieina a'r Undeb Sofietaidd. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* A oedd perthynas Tsieina â'r Undeb Sofietaidd yn well na'i pherthynas ag UDA yn ystod y cyfnod 1949-1976?
Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am y Chwyldro Diwylliannol a blynyddoedd olaf Mao, 1962-1976.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

**GWYBODAETH**

Roedd Mao yn arwr i'r mwyafrif o bobl Tsieina. Ef oedd wedi sefydlu'r wladwriaeth Gomiwnyddol ac roedd ei farwolaeth yn 1976 yn achos galar i filiynau. Aeth llawer o bobl i weld ei gorff.



*(a)* (i) Beth oedd 'y ffordd gyfalafol'? [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(ii) Eglurwch pam y cyflwynodd Mao y Chwyldro Diwylliannol. [4]

(iii) Pa mor llwyddiannus oedd Mao wrth annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y Chwyldro Diwylliannol? [5]

*(b)* (i) Disgrifiwch yr 'Hen Bedwar'. [3]

(ii) Eglurwch pam y daeth Mao â'r Chwyldro Diwylliannol i ben. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* A oedd y Chwyldro Diwylliannol o fudd i holl bobl Tsieina?
Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]